MOTT MACDONALD

Lleisiwch eich barn!

Rydyn ni eisiau ei gwneud hi'n haws i bobl gerdded, olwyno a beicio yn eich ardal

Rydym yn edrych ar **Gylchfan y Faenol** a rhai o'r llwybrau y gallwch eu cymryd ati ac oddi wrthi:



Mott MacDonald Restricted

Pam ydyn ni'n gwneud hyn?

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o bobl eisoes yn hoffi cerdded, olwyno a beicio yn yr ardal hon.

Ond rydyn ni wedi cael gwybod bod croesi'r gylchfan yn teimlo'n beryglus, a'r llwybr ar Allt y Faenol yn rhy gul.

Rydyn ni eisiau datrys y problemau hyn a'i gwneud hi'n haws i gerdded, olwyno a beicio.

Gall cerdded, olwyno a beicio fod yn ffordd wych o symud o gwmpas, mynd i'r ysgol, y parc neu'r siopau.

Dyma rai o'r manteision:

- Mae'n wych i'ch iechyd, gan roi mwy o egni i chi
- Mae'n dda i'r amgylchedd, gan ein helpu i wneud ein rhan dros y blaned
- Mae'n gost isel, gan roi mwy o arian i chi ei wario
- Mae'n ffordd wych o archwilio eich ardal leol

Mott MacDonald Restricted

Beth yw'r cynllun?

Byddwn yn ei gwneud yn fwy diogel ac yn haws i gerdded, olwyno a beicio ger Cylchfan y Faenol.
Byddwn yn gwneud hyn drwy:

Rhoi goleuadau traffig ar Gylchfan y Faenol er mwyn i bobl allu croesi'r ffordd yn ddiogel

Gostwng y terfyn cyflymder i 50mya

Lledu'r llwybr cerdded a beicio ar Allt y Faenol

Gwella'r gyffordd yn Ffordd Penrhos fel bod pobl yn gallu croesi'n ddiogel

Mott MacDonald Restricted

Sut y bydd yn edrych?

Mott MacDonald Restricted

Allwedd
Safbwynt – Gweledol 1
Safbwynt – Gweledol 2
1 Amlinelliad arfaethedig cam 2 - cynllun sy'n cael ei ddatblygu
2 Ardal i'w gwella'n ecolegol
3 Croesfan Toucan fel rhan o'r signalau cylchfan
4 Braich mynediad i'w gael ei reoli gan signal
5 Croesfan Toucan annibynnol
6 Safle caled ar gyfer offer signalau
7 Nodweddion porth i aros/cael eu hadleoli
8 Bae cynnal a chadw arfaethedig
9 Safle caled ar gyfer offer signalau
10 Bae cynnal a chadw arfaethedig
11 Braich mynediad i aros yn rhyddllifo
NTS
Bangor
Felinheli
Caernarfon

Pryd mae hyn yn digwydd?

Rydym am ddechrau adeiladu’r croesfannau cylchfan newydd yn **2025**.

Bydd gwelliannau eraill, fel lledu'r llwybrau cerdded a beicio, yn cael eu cyflawni'n ddiweddarach.

Mott MacDonald Restricted

Lleisiwch eich barn!

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am ein cynlluniau. Rhowch adborth i'r cwestiynau hyn:

1. Beth ydych chi'n ei hoffi am y cynllun?

2. A oes gennych unrhyw bryderon am y cynllun?

3. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gallem wella'r cynllun?



Defnyddiwch y ddolen hon i roi adborth – **Ymgynghoriad darpariaethau Teithio Llesol A487 Cylchfan y Faenol, Bangor (llyw.cymru)**

Gallwch hefyd e-bostio adborth neu ofyn am ffurflen adborth ar bapur trwy gysylltu â **A487Faenol@mottmac.com**

Rydym yn gyffrous i ddechrau adeiladu'r prosiect hwn yn eich cymuned!

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych eisiau gwybod mwy, ebostiwch â:

A487Faenol@mottmac.com